



Wilia



RHIF 440 TACHWEDD
2021 50C

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

ADEILADAU NEWYDD I YSGOLION CYMRAEG

Mae adeiladau newydd i ddwy ysgol Gymraeg yn Abertawe ar fin cael eu cwblhau.

Bydd disgyblion yn symud i Ysgol Tirdeunaw ym mis Tachwedd, a bydd disgyblion Tan-y-lan yn symud i'w hadeilad newydd ym mis Ionawr, 2022.

Cafodd Ysgol Gymraeg Tirdeun-

roedd gan yr Ysgol 408 o ddisgyblion ar ei safle yn hen Ysgol Mynyddbach. Roedd yr adeiladau yno wedi bod yn dirywio ers sawl blwyddyn. Bu galw am gynyddu darpariaeth addysg gynradd Gymraeg yn ardal Cwmbwrla a Threfansel, a phenderfyniad y sir oedd symud yr ysgol i gaeau ar safle Ysgol Gyfun



aw ei sefydlu yn 1994, ac yn addas i'w henw, tua 18 o blant oedd yno ar y cychwyn. Tyfodd yr Ysgol yn gyflym, a chyn pen pum mlynedd roedd gan yr ysgol 190 o blant. Cyn pen rhai blynedd oedd niferoedd yr ysgol wedi codi i fod yn agos at 400. Ym mis Ebrill eleni

Gymraeg Bryn Tawe. Bydd lle yn yr Ysgol newydd i 525 o blant llawn amser a 75 o blant meithrin.

Problem fawr arall a oedd gan y sir oedd nod nifer y plant yn Ysgol Gymraeg Tan-y-lan, Treforys, yn cynyddu'n gyson.

Agorwyd yr ysgol yn 2000?? Lle i

105 o blant oedd yn yr ysgol, ar safle hen Ysgol y Graig, Treforys. Tyfodd yr ysgol a bu'n rhaid adeiladu adeiladau dros dro ychwanegol. Erbyn hyn mae lle i 130 ar y safle, ond mae gan yr ysgol 196 o blant.

Gwnaeth y Cyngor gais am arian o dan Gynllun Band B Llywodraeth Cymru. Mae'r adeilad newydd wedi ei chodi ger Heol Beaconsview, ac fel y mae'r enw'n awgrymu, mae golygfeydd braf hyd at y Bannau i'w cael o'r ysgol. Bydd plant yr ysgol yn symud i'r adeilad newydd ym mis Ionawr 2022. Bydd yn yr ysgol lle i 420 o blant gan gynnwys plant meithrin.

Mae prosiectau eraill gan y sir yn cynnwys estyniad newydd i Ysgol Gymraeg Bryniago, er mwyn gallu lleihau maint dosbarthiadau meithrin. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ehangu Ysgol Gwyr ac Ysgol Bryn Tawe. Mae bwriad hefyd i osod ystafelloedd ychwanegol yn Ysgol Login Fach ac Ysgol Bryn-y-môr.



Ysgol Gymraeg y Cwm yn 'Cofio teuluoedd Ffynnonfadog' 18ed o Ionawr 1941

Wrth astudio thema yr Ail Ryfel Byd sef 'Abertawe'n Fflam' yn yr ysgol fe wnaeth ddisgyblion Blwyddyn 6 ddarganfod ffeithiau diddorol a thrist iawn am y bomio. Rhwng



Mehafin 1940 a Chwefror 1943 cafodd Abertawe ei fomio yn ddirugaredd gan yr Almaenwyr. Tair noson Y BLITS cafodd yr effaith waethaf ar y ddinas yng nghanol mis Chwefror 1941. Dinistrwyd adeiladau, ffatrioedd, cartrefi a chollodd 230 o bobl eu bywydau ac anafwyd dros 409. Mewn gwrs casglu data cyrchoedd awyr

heddiw) roedd tri teulu yn cysgodi rhag y bomio. Roedd y ddau dŷ yma yn sefyll drws nesaf i Ysgol Gymraeg y Cwm – ar safle'r ardd.

Cafodd y tai yma eu bomio a bu difrod mawr i'r ysgol hefyd. Bu farw 12 o bobl oedd yn byw yn y ddau dŷ y noson honno ac yn eu plith roedd dau o blant bach:

Abertawe mi wnaeth y plant ddarganfod bod bomio dychrynllyd wedi digwydd ar Jersey Road, Bonymaen sef drws nesaf i'n hysgol. Digwyddodd hyn ar yr 17eg o Ionawr 1941.

Yn rhif 158 a 159 Ffynnonfadog Road (sef Jersey Road

Bu farw....

Benjamin Thomas,	56 oed
Elizabeth Thomas,	56 oed
Margaret Thomas,	28 oed
Irene Thomas,	26 oed
Gwyneth Thomas,	24 oed

David Williams,	74 oed
Ann Williams,	62 oed
William Williams,	35 oed
Wilfred Luther Bird,	39 oed
Gwenllian Bird,	38 oed
Wilfred George Bird,	6 oed
Mary Ann Bird,	2 oed

80 o flynyddoedd ar ôl y trychineb yma fe benderfynon ni fel ysgol i goffau'r tri teulu mewn gwasanaeth rhithiol arbennig. Mi wnaethon ni sefydlu ardal 'COFIO' yn ein gardd ysgol. Lle i bawb fwynhau'r harddwch a'r tawelwch, i sgwrsio ac i gofio. Enw ein gardd ysgol bellach yw 'Gardd Ffynnonfadog'.

(Catrin Pryce, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gymraeg y Cwm)

CALENDR DIGWYDDIADAU

Annwyl bapur bro,

Dwi'n cysylltu i roi gw'bod am adnodd newydd allai fod yn ddefnyddiol i chi a darllenwyr eich papur bro.

Mae Golwg newydd lansio Calendr360.cymru. Mae'n lle ar-lein y gall pawb ei defnyddio i hyrwyddo digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

Ei nod yw helpu trefnwyr a mudiadau i

gyrraedd cynulleidfa ehangach, a bod yn adnodd handi i bobol sy'n chwilio am ddigwyddiadau i'w mynychu, wrth i ni geisio creu rhyw fath o normalrwydd eto wrth ddod mas o Covid.

Y peth gorau am Calendr360 yw ei fod yn hawdd i osod manylion digwyddiad arno, ac mae e am ddim!

Bydd pob digwyddiad yn ymddangos ar y calendr cenedlaethol, ac os ydych chi mewn ardal sydd â [gwefan fro](http://gwefan.fro), bydd yn ymddangos yn y fan honno hefyd – sy'n help i gyrraedd y gynulleidfa leol.

Felly ewch amdani – mae'n hawdd!
Dim ond mynd i Calendr360.cymru > Ymuno!

Mewngofnodi (i greu cyfrif yn y lle cynta) wedyn Creu > Digwyddiad a llenwi'r manylion. Fe hoffen ni i'r calendr ar-lein yma gydweithio gyda rhestrau digwyddiadau sy'n ymddangos yn eich papurau bro. Os ydych chi'n credu bod cyfle i Bro360 osod hysbyseb bach i hyrwyddo Calendr360 yn eich papur bro mewn ffordd sy'n hyrwyddo'r ddau gyfrwng – cysylltwch yn weddol fuan. Mae rhywfaint o gyllideb ar gael gennym i hysbysebu, ond cyntaf i'r felin fydd hi! Cofion gore,
Lowri

Merched y Wawr Treboeth yn dathlu'r Aur.



O'r diwedd cafwyd cyfle i gangen Merched y Wawr Treboeth ddathlu'r 50. Sefydlwyd y gangen ym mis Mai 1970 ac yn ystod y flwyddyn gynta' roedd dros 100 o aelodau ar y llyfrau. Daeth yr aelodau presennol ynghyd i ddathlu'r achlysur arbennig hwn ar brynhawn Gwener Medi 10fed. Rita Daniels cafodd y fraint o dorri'r gacen arbennig - yr aelod hynaf yn y gangen ac ysgrifennydd cynta'r gangen. Braf oedd croesawu Menna Lewis i'r dathlu - Swyddog Hyrwyddo Gorllewin Morgannwg.

Mae'r gangen wedi llwyddo cadw cysylltiad da yn ystod y pandemic drwy Whatsapp, ebyst a chwrdda tu fas. Hefyd fe gwrrddon ni i gael prydau bwyd gyda'n gilydd ar ôl derbyn grant Loteri.

Yn ein cyfarfod mis Hydref daeth Catrin Stevens atom i sôn am ddeiseb Apêl Heddwch Merched Cymru yn 1923. Yn ddiweddar, darganfuwyd yr apêl yn archifau y Deml Heddwch, Caerdydd.

Mae'r gist, sy'n llawn llofnodion merched Cymru - bron 400,000 ohonyn nhw, yn Amgueddfa Smithsonian yn Washington U.D.A. a'r gobaith yw digideiddio cynnwys y gist ar gyfer y canmlwyddiant yn 2024. Prosiect cyffrous iawn.

Mae cangen Treboeth yn cwrdd yn Neuadd Gymunedol Treboeth ar yr ail ddydd Gwener bob mis am 2 o.g. Croeso cynnes i aelodau newydd - siaradwyr Cymraeg yn ogystal â dysgwyr.



Os am ragor o fanylion cysylltwch ag Elizabeth ar 652528 neu Denise ar 773083.

CYFLE I
ENNILL
£100!

Annwyl ddarllenwyr,

Rydyn ni'n ysgrifennu ynglŷn â chystadleuaeth ffotograffiaeth *Cara* – cylchgrawn Cymraeg i ferched o bob oed, gan ferched ac am ferched. Mae *Cara*'n cael ei gyhoeddi 3 gwaith y flwyddyn ac ar gael yn eich siop lyfrau leol. Bydd y rhifyn nesaf yn barod ganol Tachwedd.

Yn ogystal â'r 72 tudalen o erthyglau lliwgar am iechyd, ffasiwn, bwyd a diod, teithio, materion cyfoes a llawer mwy, rydyn ni'n cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth i fenywod ar y thema Golau/Goleuni. Bydd mwy o fanylion yn *Cara*'r gaeaf. Dyma gyfle i ennill gwobr gwerth £100 gan gwmni Gola, cael y llun wedi ei fframio a hefyd ei gynnwys yn *Cara*.

Ewch amdani dros gyfnod y Nadolig a'r Calan! Beth am brynu anrheg Nadolig gwahanol eleni? Gallwch gael tansgrifiad blwyddyn i ffrind, mam, merch, modryb, wyres, chwaer, nain... am £12 yn unig. Mae'r manylion ar ein gwefan www.cara.cymru, ac ar @cylchgrawncara ar Facebook, Instagram a Twitter.

Diolch yn fawr,
Meinir ac Efa (Tim *Cara*)

Llwyddiannau'r Adran Addysg Gorfforol ym Mryn Tawe

- Llongyfarchiadau mawr i Ashley Griffiths o flwyddyn 9 sydd wedi cael ei dewis fel rhan o garfan pêl-droed rhanbarthol dan 14 De Cymru ac i Jordan Cullen o flwyddyn 7 sydd wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o garfan rhanbarthol De Cymru ym mhêl-droed.

- Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi eu dewis i fod yn rhan o garfannau Pêl Droed Ysgolion Abertawe eleni:- Madina Darracott, Sofia Gimblett, Catrin Edwards, Jordan Cullen, Lucas Parkhouse, Declan De-Vuglt, Alex Leigh-Williams, Jake Williams, Jayden Blackmore, Callum Jones, Harlie Jones, Tom Searle, Harri Mills, Sonny Parkhouse ac Alex Hoskin

- Llongyfarchiadau i fois BI 11 sydd wedi eu dewis yn rhan o garfan rygbi ysgolion Abertawe: Dewi Jones, Noa Newcombe, Harrison Doe, Cory Westermarck, Jacob Abbott. Pob lwc yn ystod y tymor fechgyn!

- Llongyfarchiadau i Ella Mai a oedd yn rhan o dim gymnasteg a wnaeth ennill pencampwriaeth Cymru. Fe fydd Ella yn mynd ymlaen at Bencampwriaeth Prydain nesaf, pob lwc!!

- Hyfryd gweld y disgyblion yn cael y cyfle i gystadlu yng nghystadleuaeth traws gwlad y sir unwaith eto! Nifer o berfformiadau da iawn:- BI 7 Declan de Vuglt (2ail), Finley Williams (4ydd), Maisey Bayliss (9fed) BI 10-13 Steffan Higgins (8fed)

Llongyfarchiadau i Gôr Merched Treforys



Mynegodd Mike Hedges ASC ei longyfarchiadau i Gôr Merched Treforys yn y senedd. Eleni mae côr Merched Treforys yn dathlu 80 mlynedd ers ffurfio ac rwy'n falch iawn i fod yn Llywydd ar y côr. Sefydlwyd y côr ym 1941 gan Miss Lillian Abbot ac aelodau'r Grŵp Amddiffyn Cymorth Cyntaf Lleol. Ar y pryd roedd llawer o gorau meibion yn boblogaidd yn yr ardal, fel y pery iddynt wneud, megis côr byd enwog Morrison

Orpheus. Mae eu cyfarwyddwr cerdd bresennol Anthony Williams wedi bod gyda'r côr ers 1974 ac maent wedi bod yn ehangu ei repertoire cerddorol yn raddol, o ganu Alawon Gwerin ac emynau i alawon sioe a cherddoriaeth pop. Canolfan y côr yw Capel y Tabernacl yn Nhreforys. Maent yn ymarfer yn y festri ac yn cynnal ei gyngherddau yn y Capel. Maen nhw wedi perfformio gyda nifer o gorau, un-awdwy'r a bandiau milwrol. Yn ogystal, mae'r côr yn adnabyddus ar draws y byd,

wedi iddynt ganu yn Adeiladau'r Senedd yn Toronto ac Ottawa yn ystod eu taith o Ganada yn 1991. Nid Canada yw'r unig wlad maen nhw wedi gadael ei marc, ond maen nhw hefyd wedi perfformio yn yr Almaen, yr Iseldiroedd, Sbaen, y Ffindir, Iwerddon, Tuscany, Gwlad Pwyl ynghyd â nifer o gyngherddau yn Lloegr.

WILLIAM (BILLY) BRACEWELL, Y DAWNSIWR DISGLAIR

Bu Billy yn ddisgybl yn Ysgol Lôn-las cyn mynd i ffwrdd i White Loegr i astudio dawns pan oedd yn 11 oed, tipyn fel Billy Elliott y ffilm.

Ers hynny mae e wedi cael rhai o brif rolau dawns ar lwyfannau theatrau gwledydd Prydain. Cafodd ran Romeo yn y ffilm Bale



Rome a Juliet. Mae modd gweld y ffilm ar BBC Iplayer ar hyn o bryd. Mae modd gael sgwrs ag e ar Youtube. Mae ei fam, Patsy, yn byw ym Mhortheinon, a bu cyn

hynny yng Nghwmrhydyceirw. Meistrolodd hithau'r Gymraeg, a rhedeg sesiynau stori a chân i blant yn y Gymraeg.

Ble mae Siôn Corn?

Y Mentrau Iaith yn chwilio am Siôn Corn Cymraeg! Mae'r Mentrau Iaith ar draws Cymru yn galw allan i gael gweld ble mae'r holl lefydd y bydd Siôn Corn yn siarad Cymraeg y gaeaf hwn. Rhaid oedd i grotos Siôn Corn fynd yn rhithiol llynedd, a chynigwyd ymweliadau â'r dyn ei hun ym mhob rhan o Gymru drwy gofrestru am 'slot' gyda'r Fenter Iaith leol.

Mae'r Mentrau Iaith am gael gwybod ym mhle drwy Gymru fydd Siôn Corn sydd yn siarad Cymraeg? Mae'r Mentrau Iaith yn eich gwahodd i gysylltu gyda nhw er mwyn gadael iddynt wybod y manylion.

Bydd y Mentrau Iaith yn creu rhestr gynhwysfawr o leoliadau Siôn Corn Cymraeg eu iaith ar draws Cymru gyfan gan ei ryddhau fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn gael eu



amddifadu o gael sgwrsio yn Gymraeg gyda'r dyn mawr.

Os bydd Siôn Corn yn ymweld â chanolfan arddio, neuadd bentref, ffair Nadolig neu yn rhithiol dros gyfrifiadur, cysylltwch â'r Fenter Iaith leol gyda'r wybodaeth briodol.

Cysylltwch â tomos@menterabertawe.org



Logo newydd i'r Fenter

Ar ôl blynyddoedd lawer o ddefnyddio logo pêl rygbi, mae Menter Iaith Abertawe wedi comisiynu logo newydd. Mae'r cynllun yn cynrychioli tirwedd y ddinas, y traeth, y môr a'r mynyddoedd. Allwch chi weld Fan Gyhirych yn ysgwydd uwchben y cwm? Datblygwyd y logo gan Simon Goss SIGGA Design



Wilia

Y mis hwn yng ngofal Heini Gruffudd **Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.**

Mis Rhagfyr yng ngofal Steve Morris.. Anfonwch unrhyw beth a allai fod o **ddiddordeb i'n darllenwyr i:** wilia@hotmail.co.uk Croeso i unrhyw fath o ddeunydd; os **oes gennych gerdd neu stori sy'n hel** llwch yn y drôr!



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Creu'r Gymru a Garem

Mae Cymdeithas y Cymod yn gweithio dros gymunedau a chenedl fwy diogel, cyfiawn a chyfartal yma yng Nghymru a'r tu hwnt. Rydym yn rhan o fudiad rhyngwladol o bobl sy'n credu yn y llwybr di-drais mewn ymateb i ryfel a militarïaeth. Dyma fraslun o'n gweledigaeth a'n gwaith...

Addysg:

Rydym yn falch o weld cwricwlwm yng Nghymru sydd yn anelu at baratoi pobl ifanc at y dyfodol fel dinasyddion sydd yn ymwybodol o'r heriau sydd yn ein hwynebu ac yn barod i'w goresgyn mewn ffordd greadigol ac egwyddorol. Credwn, er hynny, y dylai fod mwy o bwyslais ar alluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau i gydberthyn ag eraill ar sail parch a goddefgarwch ac i ddatrys problemau'n ddi-drais. Nid oes lle yn ein hysgolion ar gyfer recriwtio milwrol, a dylai hynny gael ei wahardd.

Mae Cymru'n wlad gyda threftadaeth heddwch anhygoel a dylai fod mwy o bwyslais ar hyn yn ein hysgolion a'n cymdeithas. Cymru, er enghraifft, yw'r unig wlad yn y byd sydd wedi anfon Neges Heddwch ac Ewyllys Da oddi wrth ein pobl ifanc i bobl ifanc y byd yn flynyddol ers canrif. Yn 1923 – 4 fe wnaeth criw o fenywod fynd ati i gasglu dros 390,000 o lofnodion i ddeiseb i geisio dwyn pwysau ar Arlywydd America i'w wlad ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Mae'r rhain yn storïau y dylai plant – ac oedolion – wybod amdanynt.

A ydy Cymru'n wlad sydd yn hybu heddwch heddiw? Un ffordd o godi ymwybyddiaeth am heddwch yw hyrwyddo pabis gwynion yn arwain at Sul y Cofio. Wrth wisgo pabi gwyn, rydym yn cofio pawb sydd yn dioddef oherwydd rhyfel, gan gynnwys unigolion, teuluoedd a phlant, ac yn dangos dyhead am fyd a fydd – un dydd – yn dysgu datrys anghydfod yn ddi-drais. Gallwch archebu pabis gwyn gyda 'hedd' yn y canol twy gysylltu â cymdeithasycymod@gmail.com. Llesiant a Ffyniant economaidd:

Mae'n bwysig symud oddi ar economi sydd yn ddibynnol ar greu arfau dinistriol (sydd yn gwneud niwed i'r amgylchfyd yn ogystal â dinistrio bywydau a chymunedau) tuag at greu swyddi gwyrdd cynaliadwy. A wyddoch chi fod pob person yng Nghymru yn cyfrannu £572.40 y flwyddyn at y diwydiant arfau? Hoffem weld Cymru sydd yn canolbwyntio ar dyfu economi gwyrdd – a sydd hefyd yn ffurfio perthynas â gwledydd eraill yn seiliedig ar gyfathrebu a chydweithio.

Dysgu o'r gorffennol a gweithio tuag at ddyfodol gwell...



Un peth sydd wedi dod yn amlwg yn ystod y pandemig yw'r ffaith nad yw arfau niwclear yn medru ein hamddiffyn rhag beryglon megis heintiau a newid hinsawdd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear y Cenhedloedd Unedig a rhoi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i wneud yr un fath.

Yn yr un modd, mae rhannau mawr o diroedd Cymru yn cael eu defnyddio at bwrsau milwrol – ardaloedd megis Mynydd Epynt a Chastell Martin. Mae Cymdeithas y Cymod am gadw yn fyw'r cof am yr hyn yr oedd y troi o'u tiroedd yn ei olygu i'r teuluoedd oedd yn byw yn yr ardaloedd hyn a hefyd gofyn y cwestiwn – a oes angen yr holl dir hwn ar gyfer ymarfer tuag at ryfel, a sut mae hyn yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol?

Croeso ichi ymuno gyda ni!

A hoffech gyfrannu at ein hymgyrchoedd? Rydym angen pobl gydag amrywiaeth o sgiliau. Cysylltwch â ni os hoffech drafod sut medrwrch gyfrannu a hefyd sut i ymaelodi. Diolch! Ewch at ein gwefan: www.cymdeithasycymod.cymru neu ysgrifennwch at cymdeithasycymod@gmail.com.

CYN-DDISGYBLION GWYR YN LLYWYDDION



Llongyfarchiadau i ddau o gyn-ddisgyblion Gwyr – yn ddiweddar dewiswyd Daniel Roles yn llywydd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym,

BRYN TAWE Adran y Gymraeg

Fel rhan o Ddiwrnod rhyngwladol Heddwch ym mis Medi, paratodd criw o fl.11 a 13 fideo i dynnu sylw at y diwrnod: <https://youtu.be/s39yb0SnFwk>

Fel rhan o ddathliadau 'Diwrnod Shwmae', paratowyd fideo ar gyfer rhieni a chymuned yr ysgol gyda'r disgyblion yn esbonio sut mae dweud rhai brawddegau cyffredin yn y Gymraeg. Beth am wylïo'r fideo: [\(218\) Diwrnod Shwmae Su'mae 2021 - YouTube](#)

COFIO T LLEW JONES

Dathlwyd Diwrnod Coffa T.Llew Jones yn ôl ein harfer gyda Gwasanaeth Rhithiol wedi ei baratoi gan y Chweched a chynhaliwyd Helfa Drysor T.Llew Jones i ddisgyblion bl.7 yn eu gwersi Cymraeg. Diolch hefyd i Oriolodl am daflen gelf i ddathlu'r diwrnod.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr hefyd i nifer o ddisgyblion a fu'n llywyddiannus yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd 2020. Gan i'r Eisteddfod honno gael ei gohirio, cyhoeddwyd y canlyniadau yn ddiweddar a braf oedd clywed bod

Harri James sydd bellach ym ml.9 wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth am farddoniaeth bl.7,

Steffan Leonard, sydd bellach yn yr ail flwyddyn yn y Brifysgol, wedi ennill yr ail wobwr am farddoniaeth o dan 25oed,



Steffan Leonard hefyd wedi ennill y wobwr gyntaf am gyfansoddi sgrïpt o dan 25ain oed. Da iawn i griw o fl.9 presennol am ennill gwobr am greu fideo

pan oedden nhw ym ml.7 am Eileen Beasley a Gwynfor Evans.

Llongyfarchiadau hefyd i'r criwiau o ddisgyblion a fu ynghlwm wrth y cywaith iau, a'r cywaith hyn- dwy wobwr gyntaf arall iddyn nhw!

cymdeithas Gymraeg Prifysgol Rhydychen, a dewiswyd Rosa Humphreys yn llywydd Cymdeithas y Mabinogi, cymdeithas Gymraeg Prifysgol Caergrawnt. Llun: Rosa ar bwyllgor tîm pêl-rwyd Prifysgol Caergrawnt.

Ydych chi'n siarad Cymraeg yn rhugl? Ydych chi'n awyddus i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg? Mae Siarad yn gynllun i helpu dysgwyr sy'n gallu cynnal sgwrs am fywyd pob dydd a sy eisiau ymarfer. Ry'n ni'n chwilio am siaradwyr sy'n fodlon rhoi ychydig o'u ham-

ser i'w helpu nhw feithrin hyder a defnyddio mwy o Gymraeg. Mae pob gwirfoddolwr dros 18 oed, yn cwrdd mewn llefydd cyhoeddus neu ar Zoom. CHI sy'n dewis lle a phryd dach chi'n cyfarfod. Dyma ffordd ymarferol, hwylyus, i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i ddod yn rhugl.

Mae'n bwysicach nag erioed ar ôl yr 20 mis diwetha, lle mae hi wedi bod mor anodd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol.

Mae cynllun Siarad yn gynllun cenedlaethol sy'n rhedeg ers 4 blynedd. Daeth y syniad yn wreiddiol o Gatalunya, lle mae miloedd o siaradwyr Catalaneg yn paru efo unigolyn sy'n dysgu'r iaith, er mwyn eu helpu i ddod yn rhugl drwy ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Ry'n ni'n gofyn i bobol ymrwymo i siarad efo unigolyn sy'n dysgu am ddim ond 10 awr o fewn blwyddyn. Chi, y siaradwr rhugl sy'n penderfynu lle, pryd a sut dach chi'n cyfarfod – mewn cymdeithas Gymraeg, mewn caffi neu dafarn, wrth fynd am dro rhywle cyhoeddus, neu ar-lein.

Y cwbl sy raid i chi wneud ydy cofrestru ar www.dysgucymraeg.cymru, (mi gewch chi lawer mwy o wybodaeth am y cynllun ar sleid SIARAD), dewis eich darparwr lleol, a byddan nhw'n cysylltu efo manylion cyswllt dysgwr fydd, gobeithio, yn eitha tebyg i chi o ran diddordebau, oedran ac argaeledd.

Wrth gwrs, ar ôl i chi gofrestru, os oes ganddoch chi ffrind sy wedi cael partner Siarad hefyd, be am drefnu i gyfarfod efo'ch gilydd? Yn enwedig mewn digwyddiad sy'n cael ei drefnu gan y Fenter Iaith, neu ddrama/ cyngerdd Cymraeg.

Llynedd mi gofrestrodd dros 250 pâr dros Gymru er gwaetha'r pandemig, ond roedd 'na restr aros o ddysgwyr ym mhob ardal gafodd eu siomi gan bod na ddim digon o wirfoddolwyr. Does dim angen i chi boeni am safon eich Cymraeg – nid tiwtor ydych chi, ond siaradwr naturiol sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn anffurfiol.

Mi fydd na ambell ddigwyddiad cenedlaethol rhithiol lle byddwch chi'n cael gwahoddiad.

Mi fasen ni'n gwerthfawrogi'n fawr tasech chi'n ystyried dod yn rhan o'r cynllun.

Ewch ar y wefan i weld mwy am y cynllun, a gobeithio'n wir gwnewch chi ystyried cofrestru. Os oes gynnwch chi gwestiynau, croeso i chi fy eostio ar eirian.conlon@dysgucymraeg.cymru

Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cymorth! Eirian Wyn Conlon, Cydlynnydd y Cynllun, y Ganolfan Dysgu Cymraeg.



Cryfhau ein Cymunedau

gan Rob Evans

Mae ein hiaith ni dan fygythiad o hyd ac er bod ein hysgollion Cymraeg yn gwneud gwaith rhagorol mae'r mewnlifiad presennol yn achosi traf-furthion i'n pobl ifanc. Os nad ydyn nhw'n gallu cael gwaith sydd yn talu'n ddigon da i brynu tŷ yng Nghymru, dros y ffin bydden nhw'n mynd.

Ond mae gobaith. Pob blwyddyn mae miloedd o oedolion yn cofrestru i ddysgu Cymraeg yn ein dosbarthiadau nos – hyd yn oed yng nghyfnod y pandemig! Mae pob un ohonyn nhw angen ein cefnogaeth. Maen nhw angen pobl i siarad efo nhw yn Gymraeg. Bydd hynny yn codi eu hyder yn yr iaith ac yn agor eu llygaid i'n cymuned

Ym mis Mawrth llynedd pan oedden ni'n mynd i mewn i'r cyfnod clo cyntaf roeddwn i wir yn poeni sut y byddaf yn ymdopi wrth fod yn y tŷ trwy'r amser. Dw i ar fy ngorau pan dw i'n brysur ac mae bod yn segur fel ryw fath o hunllef. Beth i'w wneud? Mi wnes i benderfynu ddechrau cylchlythyr i

darllen eu herthyglau.

Y Wennol yw enw'r cylchlythyr ac, wrth ei gyhoeddi, dw i wedi dod ar draws grŵp o ddysgwyr yn ardal Pen y Bont sydd wedi dechrau Cymdeithas Hanes Bro Ogwr ac mae'n mynd o nerth i nerth ers 2014. Mae hynny'n gyfraniad sylweddol i'r gymuned Cymraeg a dysgwyr sydd yn gyfrifol. Ia, dysgwyr yn sefydlu cymdeithas Cymraeg yn eu hardal, ac nid dim ond iddyn nhw ond i'r gymuned gyfan.

Onid dyma'r fath o frwdfrydedd dyn ni angen?

A oes rheswm pam na all hyn ddiwydd yn eich ardal chi?

Llynedd mi wnaeth 9,000 o oedolion gofrestru i ddysgu'r iaith ond nid yw'r ffigwr yna yn golygu dim byd os nad ydyn nhw'n cael eu ffordd i mewn i'n cymunedau. Gwnewch bwynt o ddod i adnabod eich tiwtor lleol, bydd eich Menter Iaith yn gallu helpu chi. Bydd hyn ddim mor hawdd ag arfer gan fod y cyrsiau ar Zoom ond wrth drafod â'r tiwtor efallai allech chi gael chwarter awr ar ddiwedd y dosbarth i gyflwyno eich cymdeithas leol neu drefnu taith gerdded a.y.b. Bydd



gwybod bod cyfleoedd i siarad Cymraeg ar gael yn eu hardaloedd yn gwneud llawer o les iddyn nhw. Mae'r system ad-

ddysgwyr, un lle bydden nhw'n ysgrifennu erthyglau a bydd y cylchgrawn yn mynd at ddysgwyr eraill. Roeddwn i wedi clywed am

grŵp o ddysgwyr oedd yn cyfarfod yn y Three Cliffs Cafe ar Gŵyr ac wedi mynd i siarad efo nhw cyn y pandemig. Tybed bydden nhw'n fodlon helpu?

Cysylltais â dysgwyr eraill roeddwn yn adnabod a chredwch neu beidio roedd gen i ddigon o erthyglau i gael y rhifyn gyntaf allan ar Ebrill y 1af. Ar hyn o bryd dw i'n brysur yn gosod y ddeunawfed rhifyn, un sydd yn debyg o gynnwys tua phymtheg o dudalennau. Dw i wedi gweld sgiliau ysgrifennu a hyder y dysgwyr yn codi yn ystod yr amser yna a dw i wir yn mwynhau

dysg yn gallu dysgu nhw ond chi yw'r rhai sydd yn gallu meithrin nhw!

Hyd yn hyn dw i'n gwybod am ddau grŵp o ddysgwyr sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w cymunedau a dw i'n awyddus i glywed am fwy o esiamplau. Gadewch i mi wybod os oes rywbeth tebyg wedi digwydd yn eich ardal er mwyn i mi roi cyhoeddusrwydd iddyn nhw.

Does dim byd fel llwyddiant i greu llwyddiant!

Fy nghyfeiriad e-bost yw: bobwen-nol@ntlworld.com

Diolch

BARN Y CLWB DARLLEN AR DRI LLYFR

Y Castell Siwgr, gan Angharad Tomos. Carreg Gwalch, £8.50. Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe. Marciau: 7 a 8.5

Dwy stori – bydden nhw wedi bod yn well fel dau lyfr.

Dwy stori wedi'u cysylltu â'i gilydd oherwydd bod merched ifanc o deuluoedd tlawd yn cael eu sarhau a'u treisio gan ddyinion a oedd yn fasnachwyr cyfoethog.

Wedi mwynhau – stori drist (ddim yn siŵr a yw'n wir); mae i'w weld yn hanesyddol. Y stori'r ferch yn Affrica – mor debyg i'r un stori gyntaf. Y ddwy ferch wedi cael eu gadael i lawr gan ddyinion – Dorcas gan ei thad yn y lle cyntaf, ac yn cael ei cham-drin.

Byddai wedi bod yn ddi-ddorol cael safbwynt arall efallai, ond fyddai hynny ddim wedi cyrraedd y pwynt.

Daeth y stori yn y rhan gyntaf i ben yn sydyn – eisiau disgwyl cael gwybod beth ddigwyddodd, ond roedd yr awdur yn cymharu'r ddwy ferch, ond roedd tebygrwydd mawr rhwng y ddwy, ond dim llawer o amrywiaeth i ni. Hoffwn i glywed mwy o hanes y stori – byddai'n dda cael rhagor o wybodaeth am yr hanes.

Ddim y stori orau i'w darllen cyn mynd i gysgu! Yn sylwi ei bod hi wedi cyflwyno'r stori i Manon Steffan Ros – yn egluro ar y diwedd ynghylch yr arddangosfa gan MSR – petawn i wedi darllen hynny i ddechrau. Hawdd ei ddarllen, eithaf celfydd. Yn hoffi fel roedd hi wedi cyflwyno ambell beth – Dorcas yn edrych ar y paentiad – Eboni yn edrych ar y paentiad. Yn ysgrifennu'n dda.

Ambell beth yn ffurfiol, darnau eraill yn anffurfiol.

Llechi gan Manon Steffan Ros, Y Lolfa £6.99. Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe. Marciau: 8 i 9

Roeddwn i'n hoffi'r ffordd mae'r awdur yn datblygu'r stori a'r cymeriadau – mae hi'n cadw diddordeb yn y stori a'r cymeriadau – ro'n i'n meddwl mai un person yw'r llofrudd, yna rhywun arall. Roedd yn dda, y ffordd y mae hi'n cadw diddordeb. Roedd rhai pethau'n annhebygol, fel Shaney yn helpu i'w lladd hi. Doedd hyn ddim yn teimlo'n iawn o gwbl. Hefyd, mae hi'n ysgrifennu bod Shaney yn hoyw – mae ganddo lais benywaidd.

Roedd yn trafod llawer o bynciau anodd ond ar y cyfan, mwynheais i'r stori. Hoffi'r disgrifiadau – y fam yn mynd i lanhau. Pobl 'barchus' honedig' – y tad yn ceisio cymryd mantais ohoni. Y diwedd yn anghredadwy. Mae hi wedi mynd i'r afael â phroblem iechyd meddwl – gallai wneud i bobl ifanc deimlo'n waeth. Ond hawdd iawn i'w ddarllen, eisiau gwybod beth oedd yn digwydd nesaf. Eithaf ffres.

Yn dymuno darllen – mae hi'n tynnu rhywun i mewn i'r stori, yn wych iawn. Y dafodiaith heb fod yn broblem – roedd hi'n bosibl clywed pobl yn siarad ac ro'n i'n mwynhau'r cymeriadau. Ond fel roedd hi'n dod at y diwedd, ro'n innau hefyd braidd yn siomedig ynghylch y ffordd roedd hi wedi datrys pethau ar y diwedd. Anodd credu bod person arall yn barod i dderbyn cais person i ladd ei hunan.

Roedd cymeriad Shaney wedi'i adeiladu fel cymeriad sinigaidd – yn fodlon dweud celwyddau, wedi camarwain un o'i ffrindiau

Dyma ddarn gan Dr Bruce Lervy wedi'i ysbrydoli gan Y Castell Siwgr.

Mae'r stori gyntaf am Dorcas yn Y Castell Siwgr yn fy atgoffa o hanes fy mam.

Cafodd fy mam ei geni ar 14 Rhagfyr 1901, yr ail blentyn i berchennog i berchennog siop gyffredinol yn y Rhondda. Roedd ganddi wyth o brodyr a chwiorydd cyn bu farw ei mam hi yn 35 oed. Dydw i ddim yn siŵr yn union beth oedd yr afiechyd ond roedd y ddau fachgen ifancaf yn dioddef gyda diffyg yn eu hymennydd. Hefyd daeth meddyg a oedd yn arbenigwr ar afiechyd y gwaed i'w gweld hi o'r Almaen.

Cynigiodd ei bod hi'n bwyta afu heb ei goginio dair gwaith y dydd. Mae'n bosibl mai amemia oedd ei farn e.

Fuodd fy nhad-cu ddim yn hir cyn priodi aelod o staff y siop. Mynnodd y wraig newydd fod yn rhaid symud pob plentyn i fyw gyda rhywun arall, rhai i fyw gydag aelodau eraill o'r teulu, neu i weithio fel gwas neu forwyn. Cafodd y ddau blentyn ifancaf, gyda'r diffyg ar eu hymen-

nydd, eu symud i gartrefi gofal gwahanol ble buon nhw'n byw am dros 60 o flynyddoedd.

Aeth fy mam i fyw fel morwyn at berchennog siop pobi yn Stryd John Porthcawl. Ei swydd hi oedd glanhau popeth yn y tŷ a thu fas, ac ymolchi a smwddio dillad y teulu.

Roedd hyn yn cynnwys gofalu am hen fam-gu pwy a oedd yn dioddef. Penderfynodd hi adael y swydd hon a chafodd hi swydd fel morwyn y teulu gyda teulu Gower yng Nghaerdydd. Pensaer oedd Mr Gower gyda dau fab ifanc, Raymond a Walford. Yn ddiweddarach bu Raymond Gower yn Aelod Seneddol dros Dyffryn Morganwg. Cafodd hi ei thrin yn dda yn y swydd hon, fel aelod o'r teulu. Dwi'n cofio mynd gyda Raymond Gower ar ymweliad i San Steffan a Thŷ'r Arglwyddi.

Yn y diwedd, ar ôl i'r ddau fachgen dyfu, symudodd Mam i fyw gyda'i modryb, Hana, perchennog siop losin yn Nhonyrefail lle cwrddodd hi â fy nhad

pennaf. Byddai wedi bod yn stori gryfach petai wedi'i gorffen mewn ffordd wahanol. Roedd y stori wedi gafael, yn fy nghadw ar bigau'r drain.

Gobeithio bydd y llyfr yn annog pobl ifanc i sôn am iselder ac yn annog athrawon i gadw llygad am broblemau.

Byddai'n dda petai rhywun wedi ychwanegu gwefan i gyfeirio pobl ifanc sydd â phroblemau meddyliol.


Pwnc anodd wedi'i gyflwyno gyda them-ladrwydd a dewrder.

Nid llyfr y byddwn ni'n dweud amdano, "Dwi wedi ei fwynhau e". Ond dwi'n falch i mi ei ddarllen e.

Y cyfarfod nesaf fydd:

8 Tachwedd, 7:30 ar Zoom – *Hannah-Jane* gan Lleucu Roberts, Y Lolfa £8.99, enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen, Eisteddfod AmGen 2021.

Rydyn ni'n cwrdd ar Zoom ar hyn o bryd. Croeso i aelodau newydd, cewch y ddolen drwy gysylltu ag elin.angharad.meek@gmail.com - parhad Tudalen 8



GWLEDD O ADLONIAINT

Mae gwledd o adloniant wedi ei pharatoi gan y Fenter Iaith yn Nhy Tawe a mannau eraill yn y ddinas yr Hydref yma. Bydd bandiau'n perfformio yn Nhy Tawe, a bydd Clwb Cerddoriaeth i bobl ifanc yn cychwyn. Bydd dosbarth ar Gymru i ddysgwyr, bob prynhawn Mawrth. Bydd Cylch Clebran ar-lein a chaffi bore Sadwrn, 10-12. Co-fiwch hefyd am y siop—mae arnhegion Nadoli yn aros amdanoch.

Cymru Ddoe a Heddiw

6 sesiwn dros y flwyddyn a siaradwr gwadd arbennig bob tro!

Ty Tawe: Dydd Mawrth 1pm - 3pm
Ty'r Gwrhyd: Dydd Mercher 10am - 12pm

Addas i ddysgwyr uwch a siaradwyr rhugl £30

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â saran.g.thomas@abertawe.ac.uk

NOSON GOFFA GARETH REES

LOWRI EVANS

Noson arbennig er cof am y diwedd Gareth Rees

10/12/2021
DRYSAU AM 7YH
MYNEDIAD AM DDIM
Tŷ TAWE, ABERTAWE

Menter Iaith Abertawe | Rhif Cwmni = 06693822

Y Clwb Darllen— o dudalen 7
Y Stori Orau, gan Lleucu Roberts, Y Lofa, £8.99. Barn Cylch Trafod Llyfrau Ty Tawe. Marciau: rhwng 6.5 a 9
Wedi mwynhau: rhywle rhwng stori a nofel.
Rhywbeth ychydig bach yn wahanol; syniad da oedd cyfuno storïau ac ychydig o hanes Cymru hefyd.
Do'n i ddim yn rhy hoff o gymeriad mam Swyn; roedd rhywbeth yn anghyfrifol ynghylch dod â phlentyn i'r byd heb i'r

plentyn wybod pwy yw'r tad.
Ro'n i'n methu credu'r senario er fy mod i'n gwerthfawrogi'r strwythur.
Rhai pethau doniol yn digwydd yn ystod y stori, ac roedd rhai agweddau clyfar dros ben.
Ddim yn hoff iawn o'r storïau a oedd yn rhan o'r stori fawr.
Es i ychydig ar goll a bod yn onest.
Roedd rhai o'r lluniau'n canolbwyntio ar agweddau bach iawn; tybed a gafodd y rhain eu cynnwys er mwyn i'r

ymddangos yn fwy trwchus?

MENTER ABERTAWA
YN CYFLWYNO

PWLLIN REES

7YH
Tŷ TAWE
19.11.21
£8

Clwb Cerddoriaeth

TACHWEDD 4, 18, RHAGFWR 2

CANOLFAN Tŷ TAWE, SAI HEW 6YH - 7YH

BLWYDDYN 9+
£2 Y SESIWN NEU 3 AM £5

BIT.LY/ARCHEBUIAC

Ro'n i'n hoffi'r lluniau.
Doedd gan y fam ddim enw; wrth gwrs efallai fod arwyddocâd i hynny, o ystyried diwedd y stori.
Roedd rhywbeth yn rhy dwt ac anghredadwy am y diwedd.
Nid y math o lyfr rwy'n ei ddarllen fel arfer.
Roedd tipyn o ladd ar dwristiaid a Saeson, a oedd yn eironig o ystyried cefndir Swyn.
Roedd rhywbeth yn y stori yn fy atgoffa o'r ffilm *Mama Mia*.



BANDIAU CYMRAEG

Diolch i ymdrechion y Fenter Iaith, roedd bandiau Cymraeg yn perfformio ledled y ddinas dros benwythnos Gwyl Ymylol Abertawe ddiwedd Hydref.